# CThEM – Adnewyddu Credydau Treth

## Scriptiau ar gyfer arweiniad cam wrth gam ar-lein

Fideo 1 – Cyflwyniad i'r arweiniad

Pan fyddwch yn derbyn eich pecyn adnewyddu, bydd rhai ffurflenni y tu mewn iddo a rhai nodiadau yn ychwanegol.

Efallai y byddan nhw'n anodd i'w deall i ddechrau. Dyna lle mae'r arweiniad hwn yn helpu. Byddwn yn eich cymryd drwy bob cam o'r broses, yn dangos beth i'w wneud nesaf ac yn eich helpu i ymdopi â'r cyfrifiadau anodd hynny ar hyd y ffordd.

Gall cael pethau'n iawn y tro cyntaf wneud gwahaniaeth mawr. Mae'n golygu y gallwch fod yn sicr ein bod yn talu'r swm iawn o arian i chi fel eich bod yn medru osgoi gorfod talu unrhyw arian yn ôl neu fod mewn perygl o gael eich taliadau wedi eu hatal. Mae Credydau Treth yn hyblyg – maen nhw'n newid pan fo eich bywyd yn newid. Dyna pam mae'n bwysig gwirio eich ffurflen adnewyddu yn ofalus i sicrhau bod yr wybodaeth sydd gennym yn gywir.

Mae pob taliad a gewch o ddechrau mis Ebrill tan eich bod yn adnewyddu yn seiliedig ar yr wybodaeth y rhoddoch y flwyddyn ddiwethaf neu pan hawlioch gredydau treth am y tro cyntaf. Felly er y dylech fod wedi dweud wrthym am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau yn ystod y flwyddyn, gallai'r wybodaeth sydd gennym fod yn hen. Felly, y cyflyma rydych yn adnewyddu, y cyflyma y gallwn sicrhau eich bod yn derbyn yr arian cywir.

Yn ogystal â hyn, os na fyddwch yn cwblhau'r ffurflen adnewyddu erbyn 31 Gorffennaf, bydd eich taliadau yn gorffen yn gyfan gwbl a bydd yn rhaid i chi dalu'n ôl yr holl arian a dderbyniwyd ers Ebrill. Mae hyn yn golygu dechrau eto sy'n boendod gyda'r posibilrwydd o golli arian.

Ond peidiwch â phoeni. Holl bwrpas yr arweiniad hwn yw eich helpu i adnewyddu eich hawliad yn gyflym ac yn gywir. Gofynnir i chi ar bob cam beth sy'n berthnasol i chi – fel na fydd angen i chi boeni am y manion hynny nad ydynt yn berthnasol!

Dyma dri cham syml:
Cam A: Gwiriwch beth ddywedoch wrthym pan adnewyddoch neu dechreuoch yr hawliad
Cam B: Gwiriwch y newidiadau i'ch amgylchiadau y gwnaethoch sôn amdanynt yn ystod y flwyddyn.
Cam C: Cyfrifwch eich incwm am y flwyddyn flaenorol o 6 Ebrill y flwyddyn ddiwethaf i 5 Ebrill y flwyddyn hon.

Mae hi bron yn amser i ddechrau, ond yn gyntaf bydd angen casglu ynghyd rhai pethau arnoch: byddwch angen cyfrifiannell, eich ffurflen P60 neu P45 o'r gwaith, unrhyw dderbynebau am ofal plant a chopi o'ch slip talu am y flwyddyn yn diweddu 5 Ebrill. Os ydych yn hunangyflogedig, byddwch angen cyfrifon eich Ffurflen Dreth neu fanylion o'ch incwm a threuliau busnes am y flwyddyn. Os cawsoch unrhyw log o gynilion yn y flwyddyn yna bydd angen eich cyfriflenni banc arnoch yn ogystal.

Nawr rydych yn barod i ddechrau!!

Fideo 2 - Arweiniad i'r Adolygiad BlynyddolByddwch wedi derbyn Adolygiad Blynyddol yn eich pecyn adnewyddu.

Mae'r Adolygiad Blynyddol yn cynnwys yr holl wybodaeth amdanoch chi a'ch amgylchiadau a roddwyd gennych pan wnaethoch hawlio am y tro cyntaf neu wrth adnewyddu'r tro diwethaf. Mae hefyd yn cynnwys manylion y dywedoch wrthym amdanynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Bydd yn rhaid i chi wirio'r wybodaeth hon yn ofalus oherwydd gall effeithio ar faint o arian a gewch drwy gredydau treth. Mae'n holl bwysig bod y manylion hyn yn gywir.

**Fideo 3A - Gwiriwch beth rydych wedi dweud wrthym yn barod**

Mae'r adran hon yn hawdd iawn – yr unig beth sydd angen i chi ei wneud yw gwirio bod y manylion ar eich Adolygiad Blynyddol yn gywir.

## Scriptiau ar gyfer arweiniad cam wrth gam ar-lein

Efallai y bydd yn demtasiwn i roi cipolwg yn unig ar eich Adolygiad Blynyddol gan feddwl bod popeth yn iawn, ond mae'n bwysig iawn eich bod yn gwirio'r wybodaeth sydd gennym ar eich cyfer yn ein cofnodion . Gall camgymeriad bach effeithio ar eich taliadau.

Gall costau gofal plant fod yn anodd i weithio allan – felly os bydd angen help arnoch gyda'r cyfrifiadau, yna ewch i fideo 3b. Fel arall ewch i fideo 4a.

**Fideo 3b - Cyfrifiadau gofal plant**

Os talwch *yn union* yr un swm am ofal plant bob wythnos o'r flwyddyn, mae'n gymharol hawdd. Ond nid yw bywyd pawb yr un mor hawdd!!

Mae nifer o bobl yn talu gwahanol symiau ar adegau gwahanol, ac yn aml yn talu mwy er enghraifft yn ystod gwyliau ysgol.

Os yw hyn yn swnio'n debyg i chi, yna mae angen darganfod beth yw eich costau wythnosol cyfartalog. Ond cofiwch, peidiwch â chynnwys unrhyw symiau a delir gan eich cyflogwr, mewn arian neu dalebau.

Dyma enghraifft o sut mae'n gweithio:

Mae Ahmed yn talu £60 yr wythnos am ofal plant cofrestredig. Ond am 10 wythnos y flwyddyn, yn ystod gwyliau ysgol, mae'r gost yn cynyddu i £100 yr wythnos. Mae felly ond yn talu £60 yr wythnos am 42 wythnos y flwyddyn. Cyfanswm ei gostau dros 52 wythnos felly yw:

(£100 x 10) + (£60 x 42) = £3,520

I gyfrifo'r swm wythnosol cyfartalog, rydym yn rhannu'r swm hwn â 52, oherwydd bod 52 wythnos mewn blwyddyn. Felly'r swm cyfartalog mae Ahmed yn ei dalu bob wythnos yw: £3,520 ÷ 52 = £68.

Neu os ydych yn talu eich costau gofal plant yn fisol, dyma esiampl o sut fyddai hynny'n gweithio:

Mae Carmen yn talu am ofal plant cofrestredig yn fisol ond mae'r swm y mae'n ei dalu yn amrywio o fis i fis. Ym mis Ebrill talodd **£144**; ym misoedd Chwefror, Hydref a Rhagfyr gwariodd £200 y mis (£200 x 3 = £600); ym misoedd Gorffennaf ac Awst gwariodd £400 y mis (£400 x 2 = £800); ac yn y 6 mis a oedd yn weddill gwariodd £150 y mis (£150 x 6 = £900).Felly i gyfrifo cyfanswm ei chostau gofal plant dros 12 mis y flwyddyn, rydym yn eu hadio nhw i gyd at ei gilydd:

**£144** + £600 + £800 + £900 = **£2,444**

Ac i gyfrifo'r gost wythnosol gyfartalog, rydym yn rhannu'r swm hwn â 52, oherwydd bod 52 wythnos mewn blwyddyn. Felly'r swm cyfartalog mae Carmen yn ei wario bob wythnos yw: **£2,444**÷ 52 = **£47**]

LLINELL GYMORTH - os ydych yn sylweddoli ar unrhyw adeg fod yr wybodaeth rydych wedi ei roi i ni yn anghywir neu os oes angen ychydig o gymorth ychwanegol arnoch gyda'r cyfrifiad, rhowch alwad i'n llinell gymorth ar 0845 302 1489, (neu ffôn testun ar 0845 300 3909 os ydych yn fyddar neu os oes nam ar eich lleferydd) ond cofiwch i nôl eich derbynebau a dyddiadau gofal plant cyn i chi ffonio. Bydd yn arbed amser. Ond cofiwch y gallwch ond hawlio am ofal plant sydd wedi'i gofrestru a'i gymeradwyo a'ch cyfrifoldeb chi yw gwirio dogfennau eich darparwr er mwyn sicrhau eu bod yn gywir.

**Fideo 4a – CYFLWYNIAD i GAM B**

Unwaith eich bod yn siŵr bod y manylion ar eich arolwg blynyddol yn gywir, y cam nesaf yw gwirio bod unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau yr ydych wedi dweud wrthym amdanynt yn ystod y flwyddyn wedi cael eu cynnwys ac yn gywir.

Mae'r adran hon o'r ffurflen yn mynd mewn i fwy o fanylder na Cham A, felly mae'n bwysig i ganolbwyntio. Bydd angen i chi fynd drwy bob darn yn fanwl, gan wirio fod yr wybodaeth yn gywir wrth i chi fynd trwyddo.

Os oes unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd trwy gydol y flwyddyn nad ydych chi wedi dweud wrthym amdanynt, neu os ydych wedi darganfod rhywbeth sy'n anghywir ar y ffurflen, rhowch alwad i'n llinell gymorth ar 0845 302 1489 (neu ffôn testun ar 0845 300 3909 os ydych yn fyddar neu os oes nam ar eich lleferydd).

**Fideo 4b – Ynglŷn â chi**

Yn yr adran hon o'r ffurflen, mae angen i chi wirio bod unrhyw newidiadau istatws eich perthynas yn gywir.

Mae sefyllfa pawb yn wahanol. Gall rhai ohonoch fod yn hawlio credydau ar eich cyfer chi eich hunan fel person sengl. Ond gallai rhai ohonoch fod yn hawlio fel rhan o bâr. Ac nid yw bod yn bâr yn golygu bod yn briod yn unig. Rydym yn eich trin fel pâr os ydych yn briod, mewn partneriaeth sifil neu'n byw gyda phartner. Hyd yn oed os ydych ar wahân am gyfnod, oherwydd gwaith er enghraifft, at ddibenion treth rydych yn dal i fod yn bâr.

Os ydych yn hawlio fel pâr, cofiwch fod gan y ddau ohonoch gyfrifoldeb i sicrhau fod yr holl wybodaeth ar eich Adolygiad Blynyddol yn gywir. Gwnewch bethau'n haws i chi eich hunan os oes modd ac ewch drwy'r Adolygiad gyda'ch gilydd!

A chofiwch, os ydych chi a'ch partner wedi gwahanu neu mae partner newydd wedi symud mewn, rhaid i chi adael i ni wybod o fewn mis i leihau gordaliadau neu gosbau.

**Fideo 5 – Lle rydych yn byw**

Mae'r adran hon yn dangos pa wlad rydych yn ei galw'n gartref. Mae'n rhaid i ni wirio unrhyw newidiadau i le rydych yn byw.

Mae llawer o bobl yn teithio llawer, ar wyliau neu ar gyfer gwaith. Efallai fod gennych hyd yn oed fwy nag un cartref. Ond lle bynnag rydych yn treulio'r mwyafrif o'ch amser dyna le rydych yn byw. Ac os mai Cymru, Lloegr, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon yw'r lleoliad hwnnw, mae hynny'n golygu eich bod yn byw yn y DU.

Fel arfer gallwch ond hawlio credydau treth os ydych chi'n byw yn y DU. Gall hyn ymddangos yn ddigon syml ond beth os oes rhaid i chi fynd i ffwrdd am sbel? Wel, os ydych chi neu eich partner yn gadael y wlad am fwy nag wyth wythnos (neu 12 wythnos mewn achos o salwch neu brofedigaeth), rhaid i chi ddweud wrthym o fewn mis fel y gallwn ddod â'ch dyfarniad i ben.

Ac os ydych chi'n penderfynu byw tramor yn barhaol, neu os ydych chi'n colli eich hawl i fyw yn y DU, rhaid i chi ddweud wrthym o fewn mis.

**Fideo 6 - Anabledd**

Yn yr adran hon rhaid i ni wirio newidiadau ynghylch unrhyw anabledd sydd gennych.

Gall byw gydag anabledd roi straen ar eich sefyllfa ariannol, felly rydym yn talu symiau ychwanegol o Gredydau Treth Gwaith i chi i'ch cynorthwyo – yr elfen anabledd a'r elfen anabledd difrifol.

Os nad ydych chi'n siŵr p'un a ydych yn gymwys ar gyfer un o'r ddau, efallai bydd y darn hwn yn bwysig i chi. A gyda llaw, os oes angen gwybod arnoch am blentyn gydag anabledd, byddwn yn trafod hynny'n hwyrach mewn adran wahanol yn yr arweiniad.

I ganfod os ydych yn gymwys ar gyfer yr elfen anabledd, atebwch y 3 cwestiwn nesaf:

1. A ydych yn gweithio am 16 awr neu fwy'r wythnos?

2. A oes gennych anabledd sy'n golygu eich bod dan anfantais o ran cael swydd?

3. A ydych chi'n derbyn, neu a ydych chi wedi bod yn derbyn budd-dal salwch neu fudd-dal sy'n gysylltiedig ag anabledd yn ddiweddar?

Os mai ydw/oes yw eich ateb i'r rhain i gyd, efallai gallwch hawlio'r elfen anabledd.

Ond sut ydych chi'n gwybod p'un a ydych chi'n gymwys ar gyfer yr elfen anabledd difrifol yn lle? Wel, a ydych chi'n derbyn Cyfradd Uchaf Elfen Gofal y Lwfans Byw i'r Anabl neu Gyfradd Uwch y Lwfans Gweini? Os felly, efallai gallwch hawlio'r elfen anabledd difrifol. Hefyd, os ydych mewn pâr ac mae eich partner yn gweithio, yna does dim angen i chi weithio eich hunan i hawlio elfen anabledd difrifol y Credyd Treth Gwaith.

Cofiwch, fodd bynnag, os yw eich atebion i'r cwestiynau hyn wedi newid ac nid ydych yn meddwl eich bod bellach yn gymwys rhagor ar gyfer yr elfen anabledd, mae'n rhaid i chi ddweud wrthym o fewn mis er mwyn lleihau gordaliadau neu gosbau.

Os nad ydych wedi dweud wrthym yn barod eich bod yn meddwl y gallech fod yn gymwys ar gyfer yr elfen anabledd difrifol, mae'n rhaid i chi ddweud wrthym cyn gynted â phosib neu efallai y byddwch ar eich colled o ran cael ar arian ychwanegol.

**Fideo 7 – Eich gwaith neu fudd-daliadau**

Dyma ble rydych yn gwirio unrhyw newidiadau y gwnaethoch eu nodi yn ystod y flwyddyn sy'n effeithio ar eich incwm neu eich swydd.
I'r rheiny sydd ar incwm isel, byddai ychydig o arian ychwanegol yn gymorth mawr. Felly i gyfrifo faint y gallwn eich talu mewn Credydau Treth Gwaith, mae'n rhaid i ni wybod faint o arian roeddech yn ei dderbyn yn ystod y flwyddyn dreth ddiwethaf. Dyma'r math o newidiadau i'ch incwm y dylech fod wedi dweud wrthym amdanynt:

1) Os ydych wedi dechrau (neu stopio) derbyn un o'r budd-daliadau canlynol ers i chi hawlio ddiweddaf:

Cymhorthdal incwm

Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth  neu gredydau pensiwn yn seiliedig ar incwm.

2) Os talwyd unrhyw log i chi ar gynilion

3) Os gwnaethoch dderbyn unrhyw arian o bensiwn

4) Os gwnaethoch dderbyn unrhyw incwm drwy osod eiddo

5) Os yw eich incwm o unrhyw swydd wedi newid, gan gynnwys budd-daliadau neu dreuliau.

6) Os ydych yn hunangyflogedig, mae'n rhaid i chi ein hysbysu am eich elw trethadwy am y flwyddyn.

Bydd angen i chi hefyd ddweud wrthym am unrhyw newidiadau i'ch swydd.  Dyma'r mathau o bethau y mae angen i ni wybod amdanynt yma:

1) Os yw'r wlad rydych yn gweithio ynddi fwyaf wedi newid (does dim ots os ydych yn mynd dramor i weithio'n achlysurol)

2) Os yw nifer yr oriau rydych yn gweithio fel arfer bob wythnos wedi newid

3) Os ydych wedi colli eich swydd neu wedi cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol.

Os oes unrhyw un o'r newidiadau hyn wedi digwydd i chi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac nid ydych wedi dweud wrthym eto, mae angen i ni wybod amdanynt fel y gallwn addasu eich dyfarndal. Fel arall, bydd angen i chi ad-dalu'r arian ac efallai codir cosb arnoch.

**Fideo 8 – Plant a phobl ifanc cymwys**

Mae'r adran hon yn cynnwys manylion unrhyw blant (o dan 16 mlwydd oed) neu bobl ifanc (16 - 20 mlwydd oed) y gallech fod yn hawlio ar eu cyfer, ac mae angen eu gwirio ar gyfer newidiadau.

Mae magu plant yn fusnes drud felly os oes angen ychydig o gymorth arnoch, gallwch hawlio Credyd Treth Plant am unrhyw blentyn neu berson ifanc rydych chi neu eich partner yn gyfrifol amdanynt. I fod yn 'gyfrifol' amdanynt rhai eu bod yn byw gyda chi fel arfer.

Mae plant yn tyfu'n gyflym a gall newidiadau - da a drwg - ddigwydd yn annisgwyl. Gall credydau treth addasu i'r newidiadau hyn. Dyna pam mae'n bwysig i chi i ddweud wrthym amdanynt cyn gynted â phosib.

Dyma'r mathau o newidiadau y mae angen i chi ddweud wrthym amdanynt:

1) Efallai mai dyma'r peth olaf ar eich meddwl ond bydd angen i chi, er enghraifft, ddweud wrthym os oes plentyn yn eich teulu'n cael ei eni neu'n marw.

2) Unwaith mae eich plentyn yn 16 bydd angen i chi ddweud wrthym os ydynt yn cychwyn neu'n gorffen ysgol, coleg neu hyfforddiant cymeradwy. Bydd mwy o wybodaeth ynglŷn â hyn yn y man.

3) Os ydynt yn cael swydd neu os ydynt yn dechrau derbyn budd-daliadau neu gredydau treth ar gyfer eu hunain.

4) Os ydynt yn mynd i'r carchar am fwy na 4 mis, bydd angen i ni wybod hyn hefyd.

5) Ac os ydynt yn gadael gartref, symud i mewn gyda rhywun, priodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil, mae'n rhaid i ni wybod am hyn hefyd!

Felly beth sy'n digwydd pan fod eich plentyn yn troi'n 16? O 1 Medi, yn dilyn pen-blwydd eich plentyn yn 16 mlwydd oed, a hyd at 20 mlwydd oed, rhaid iddynt fod mewn addysg amser llawn nad ydyw'n addysg uwch neu'n cael hyfforddiant cymeradwy i fod yn gymwys am Gredydau Treth Plant. Gallwn hefyd barhau i'ch talu am hyd at 20 wythnos os yw plant 16 neu 17 yn gorffen eu haddysg neu hyfforddiant ac yn cofrestru â chorff cymeradwy, er enghraifft Connexions. Os ydych yn hawlio am berson 19 mlwydd oed, rhaid eu bod wedi dechrau neu wedi eu derbyn neu wedi ymrestru ar gyfer addysg amser llawn nad ydyw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy cyn eu pen-blwydd yn 19 mlwydd oed.

Ond beth yw addysg llawn amser nad ydyw'n addysg uwch? Wel, os yw eich plentyn yn astudio ar gyfer cymwysterau ysgol neu goleg (sy'n cynnwys unrhyw beth hyd at Lefel A, NVQ lefel 3,'Scottish Highers' neu 'Advanced Highers') am fwy na 12 awr yr wythnos ar gyfartaledd ac yn

astudio o dan oruchwyliaeth yn ystod y tymor, yna mae'n cyfrif. Ond os ydynt yn astudio yn y brifysgol am radd neu dystysgrif genedlaethol uwch, nid yw'n cyfrif. Nid yw'n cyfrif chwaeth os rhoddir yr addysg amser llawn nad ydyw'n addysg uwch i'ch plentyn gan gyflogwr.

A beth sy'n cyfrif fel cwrs hyfforddiant cymeradwy? Wel, mae'n cynnwys pethau fel prentisiaethau cymeradwy'r llywodraeth a rhaglenni hyfforddiant sy'n seiliedig ar sgiliau – cyn belled nad ydynt yn rhan o gytundeb cyflogaeth neu unrhyw swydd sydd gan eich plentyn, er enghraifft cynghorwr neu arweinydd ieuenctid.

Gall yr holl bethau hyn effeithio ar p'un a ydych yn gymwys am gostau gofal plant ai peidio, a faint fyddwch yn ei dderbyn. Felly, er mwyn osgoi cosbau a thaliadau anghywir, gadewch i ni wybod os yw pethau wedi newid.

**Fideo 9 – Elfen anabledd plant**

Yn yr adran hon dylech ddweud wrthym os oes gan y plentyn yr ydych yn hawlio ar ei gyfer anabledd, a gwirio unrhyw newidiadau ynghylch yr anabledd.

Os oes gan eich plentyn anabledd, byddai ychydig o arian ychwanegol i'ch helpu yn ddefnyddiol iawn siŵr o fod. Mae'n ddefnyddiol gwybod felly  y gallech hawlio ychydig o Gredydau Treth Plant ychwanegol.

Sut ydych chi'n gwybod p'un a ydych yn gymwys? Wel, os telir Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) ar gyfer eich plentyn neu os yw eich plentyn wedi'i gofrestru'n ddall neu wedi dod oddi ar gofrestr y deillion yn ystod y 28 wythnos cyn i chi hawlio, efallai cewch elfen anabledd plant y credydau treth plant. Felly os oes unrhyw ran yn berthnasol i chi, sicrhewch ein bod yn gwybod amdano, neu gallech fod yn colli allan ar arian ychwanegol!

Os telir Cyfradd Uchaf Elfen Gofal y DLA ar gyfer eich plentyn, efallai cewch hefyd yr elfen anabledd difrifol ar gyfer eich plentyn.

Felly os oes unrhyw ran yn gymwys i chi, gadewch i ni wybod, neu fe allech fod ar eich colled o ran cael arian parod ychwanegol!

Cofiwch, fodd bynnag, i ddweud wrthym o fewn mis os ydych yn meddwl nad yw eich plentyn bellach yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer elfen anabledd plant y Credydau Treth Plant. Os na wnewch hynny, bydd angen i chi ad-dalu'r arian ac efallai cewch gosb.

**Fideo 10 – Costau gofal plant**

Yn yr adran hon rydym angen i chi i wirio unrhyw newidiadau allai effeithio ar eich costau gofal plant.

## Scriptiau ar gyfer arweiniad cam wrth gam ar-lein

Os ydych yn gweithio, gall cael rhywun i ofalu am eich plentyn fod yn gostus. Felly os ydych yn rhiant sy'n gweithio, mae'n bosibl y gallwch gael cymorth tuag at gost gofal plant - gallwch hawlio costau gofal plant tan y dydd Sadwrn yn dilyn 1af Medi ar ôl pen-blwydd eich plentyn yn 15 mlwydd oed, neu'n 16 os yw'r plentyn yn anabl, cyn belled ag y bo hawl gennych dderbyn Credydau Treth Plant ar ei gyfer.

I gael cymorth gyda chostau gofal plant rhaid i chi fod yn:

- rhiant sengl sy'n gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos neu fwy, neu
- aelod o bâr ac mae'r ddau ohonoch yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos neu fwy, neu
- aelod o bâr ac mae un ohonoch yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos ac mae'r llall yn
  - - analluog ac yn derbyn budd-dal anabledd neu fudd-dal analluogrwydd; neu
  - claf preswyl mewn ysbyty, neu
  - yn y carchar.

A chofiwch, os oes unrhyw beth yn newid ar unrhyw adeg sicrhewch eich bod yn dweud wrthym.

Bydd angen i chi hefyd wirio bod y darparwr gofal plant rydych yn ei ddefnyddio'n gymeradwy neu'n gofrestredig. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i'r person sy'n gofalu am eich plentyn am dystiolaeth o'u cymeradwyaeth neu gofrestriad. A chofiwch mai eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eu bod yn gymwys neu wedi'u cofrestru at ddibenion Credydau Treth.

Wrth i anghenion eich teulu newid, gall eich credydau treth fynd i fyny neu i lawr. Cofiwch roi gwybod i ni os yw eich darparwr gofal plant yn stopio bod yn gymeradwy neu'n gofrestredig, neu os ydych yn dechrau defnyddio perthynas i ofalu am eich plentyn, neu os ydych wedi stopio defnyddio gofal plant neu os yw eich costau wythnosol cyfartalog yn mynd i fyny neu i lawr gan £10 neu fwy neu'n gostwng i ddim. Sicrhewch fod popeth yn gywir yn syth ac fe osgowch unrhyw daliadau anghywir neu gosbau.

Mae angen i ni hefyd wirio bod cost y gofal plant wythnosol cyfartalog y rhoesoch i ni'r llynedd yn dal i fod yn gywir a sut bydd hyn yn effeithio ar faint o arian fyddwch yn ei dderbyn oddi wrthym mewn credydau treth. Peidiwch â phoeni, bydd adran nesaf yr arweiniad [Cam C] yn eich helpu i gyfrifo hwn.

**[Gwybodaeth ychwanegol;**

Mae rhai pobl ond yn defnyddio gofal plant am gyfnod byr, er enghraifft ar gyfer gwyliau ysgol neu mewn argyfwng. Gallwch nawr hawlio'r elfen gofal plant ar gyfer y cyfnodau hyn yn unig.

Os ydy hyn yn swnio fel chi ac rydych am wneud hawliad, ffoniwch ein llinell gymorth ar 0845 302 1489 (neu ffôn testun ar 0845 300 3909 os ydych yn fyddar neu os oes nam ar eich lleferydd) o fewn 7 diwrnod i'r gofal plant gychwyn.

**Fideos Adnewyddu: Sgriptiau Cam C**

**Fideo 11 – Cyflwyniad i Gam C**

Bydd rhai ohonoch wedi derbyn Datganiad Blynyddol yn eich pecyn adnewyddu, yn ogystal â'ch Adolygiad Blynyddol. Dyma amser da i wirio p'un a oes gennych un ai peidio.

Os oes Datganiad Blynyddol yn eich pecyn ewch i fideo 19 ac os nad oes Datganiad Blynyddol ewch i fideo 12a.

**Fideo 12A – Cyfrifwch eich incwm ar yr Adolygiad Blynyddol**

Nawr eich bod wedi gwirio popeth ar eich Adolygiad Blynyddol, mae'n amser i gyfrifo faint o arian rydych wedi ei dderbyn yn y flwyddyn dreth ddiwethaf (sef Ebrill 6 - Ebrill 5).

Ac os nad ydych yn dda gyda mathemateg, peidiwch â phoeni! Mae'n haws nag ydych yn meddwl. Ewch i nôl eich P60, eich P45 neu eich slip talu am y flwyddyn (hyd at Ebrill 5), neu os ydych chi'n hunangyflogedig ewch i nôl eich ffurflen dreth neu'ch cyfrifon, ac yna rydych chi'n barod i ddilyn y rhan hon o'r arweiniad. Bydd yr holl rifau sydd eu hangen arnoch yn eich llaw, felly dylech fynd drwy'r cyfrifiadau ym mhen dim o amser.

Os ydych yn hawlio fel pâr bydd angen i ni wybod yr incwm ar gyfer y ddau ohonoch, felly bydd angen manylion eich partner wrth law hefyd.

**Fideo 12B – Cyfrifo'ch incwm cyflogaeth – rhan 1**

Os ydych yn cael eich cyflogi gan gwmni, mae angen i ni wybod faint y gwnaethant eich talu yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill eleni, . Os mai dim ond derbyn incwm trwy hunangyflogaeth y gwnaethoch, gallwch hepgor yr adran hon a mynd yn syth ymlaen i [Animation 15]
Os ydych yn hunangyflogedig yn rhannol ond hefyd yn gweithio i gyflogwr, bydd yn rhaid i chi ddilyn y ddwy adran.

**Fideo 12C – Cyfrifo'ch incwm cyflogaeth – rhan 2**

Felly, er mwyn edrych ar faint yw  cyfanswm eich incwm, bydd angen i chi edrych ar adran 'Total Pay to Date' eich P45, neu adran 'Total for the year' eich slip talu diwethaf **a gawsoch ddiwedd mis Mawrth** (dywedon ni y bydden nhw'n ddefnyddiol!) Cewch yr holl ffurflenni hyn o'r gwaith felly os nad yw eich cyflogwr wedi'u rhoi i chi, gofynnwch iddynt amdanynt.

Cofiwch i gynnwys yn y ffigur hwn unrhyw beth y gwnaethoch ei ennill dramor - ond mewn Punnoedd Prydeinig os gwelwch yn dda! - ac unrhyw gildyrnau, tâl streicio o'ch undeb llafur neu arian rydych efallai wedi ei ennill yn y carchar neu ar remand rhwng Ebrill 6 y llynedd ac Ebrill 5 eleni.

## Scriptiau ar gyfer arweiniad cam wrth gam ar-lein

Cofiwch hefyd i ddidynnu unrhyw dreuliau gwaith **a ganiateir yn erbyn eich treth** nad ydych eto wedi cael eich talu, yn ogystal ag unrhyw arian rydych wedi ei dalu i gynllun pensiwn personol. Mae angen i chi hefyd ddidynnu unrhyw daliadau Mamolaeth, Tadolaeth neu Fabwysiadu statudol efallai eich bod wedi eu derbyn – ond dim ond at uchafswm o £100 yr wythnos.

Mae'r nodiadau cymorth y dewch o hyd iddynt yn eich pecyn adnewyddu o'r enw 'Adnewyddu eich credydau treth: Ei gael yn iawn' yn cynnwys taflen waith a fydd yn dweud wrthych beth ddylech ei gynnwys fel eich incwm fel cyflogai a pha ddidyniadau gellid eu gwneud.

Pan fydd gennych y ffigur nodwch ef ar y daflen waith neu ar ddarn o bapur – bydd ei angen arnoch yn hwyrach.

Os, am ba bynnag reswm, na allwch ddod o hyd i'r ffigur cywir nawr, gallwch roi amcangyfrif i ni. Ond mae'n hanfodol eich bod yn dweud wrthym cyn gynted ag rydych yn gwybod y ffigur cywir ac nid yn hwyrach na 31 Ionawr y flwyddyn nesaf. Nes ei fod gennym, ni allwn fod yn sicr eich bod yn derbyn y credydau treth cywir. Efallai bod mwy o arian yn ddyledus i chi. Neu efallai eich bod wedi cael eich gordalu, sy'n golygu bydd yn rhaid i chi ei dalu'n ôl.

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar unrhyw adeg wrth i chi gyfrifo'ch incwm, rhowch alwad i'r llinell gymorth ar 0845 302 1489 (neu ffôn testun ar 0845 300 3909 os ydych yn fyddar neu os oes nam ar eich lleferydd).

**Fideo 13 - Buddiannau oddi wrth eich cyflogwr**

Mae'r adran hon yn eich helpu i gyfrifo beth yw gwerth eich buddiannau gwaith.

Os ydych yn lwcus, efallai cewch lawer o fân fanteision sy'n dod gyda'r swydd – pethau fel yswiriant meddygol neu gar cwmni.

Mae angen i ni wybod beth yw gwerth y rhain i gyd felly'r ffigur ddylai fod yma yw'r cyfwerth mewn arian y cawsoch oddi wrth eich cyflogwr ar gyfer y flwyddyn dreth hyd at 5 Ebrill eleni.

Unwaith eto, bydd eich cyflogwr fel arfer yn gwneud y gwaith ar eich cyfer trwy anfon ffurflen P11D neu P9D atoch. Ond os nad oes gennych y ffurflenni hyn, gofynnwch i'ch cyflogwr ddweud wrthych chi beth yw gwerth y buddiannau mewn nwyddau y dylech eu cynnwys fel incwm.

I wneud pethau ychydig yn haws, mae'r nodiadau cymorth sydd wedi'u cynnwys yn eich pecyn adnewyddu'n cynnwys taflen waith a fydd yn dweud wrthych chi pa fuddiannau gwaith y dylech eu cynnwys fel incwm.

Ac os ydych wedi cael mwy nag un swydd yn ystod y flwyddyn dreth ddiwethaf, adiwch y ffigurau at ei gilydd.

Pan fydd gennych ffigur, nodwch ef a'i gadw tan yn hwyrach.

**Fideo 14 - Budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy a dderbyniwyd**

Nawr mae'n amser i gyfrifo faint o arian rydych efallai wedi ei dderbyn drwy fudd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy.
Yn gyntaf, mae'n bosibl eich bod yn meddwl beth yn y byd yw 'budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy?'

Wel mae nifer o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol ar gael i bobl gan y Llywodraeth - taliadau rheolaidd yw'r rhain sydd wedi'u cynllunio i helpu pobl gyda phob math o anghenion - pobl sy'n ddi-waith, sâl, wedi ymddeol neu sy'n darpar rieni, er enghraifft.

A daw'r budd-daliadau hyn o dan ddau gategori. Mae rhai ohonynt yn rhydd o dreth. Caiff eraill eu trethu. Y budd-daliadau sy'n cael eu trethu yw:

- Lwfans Profedigaeth,
- Lwfans Gofalwr
- Lwfans Ceisio Gwaith **yn seiliedig ar gyfraniadau**
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth **yn seiliedig ar gyfraniadau**
- **Budd-dal analluogrwydd -** ond peidiwch â'i gynnwys os ydych wedi bod yn ei dderbyn ers cyn 13 Ebrill 1995 ac wedi bod yn ei dderbyn ers hynny.

Felly, os talwyd unrhyw un o'r rhain i chi yn ystod y flwyddyn dreth ddiwethaf, cyfrifwch faint rydych wedi derbyn oddi wrthynt a nodwch y cyfanswm.

Os ydych yn dal yn teimlo ar goll ac nid ydych yn siŵr pa fudd-daliadau a gawsoch neu faint o arian a gawsoch oddi wrthynt, rhowch alwad i'ch swyddfa Nawdd Cymdeithasol neu'r Ganolfan Byd Gwaith.

**Fideo 15 - Incwm o hunangyflogaeth**
Mae'r adran hon ar gyfer y rheiny sy'n hunangyflogedig i'ch helpu i gyfrifo beth yw eich elw trethadwy ar gyfer y flwyddyn dreth (Ebrill 6 y llynedd i Ebrill 5 eleni).

Gall fod yn anodd cyfrifo hyn gan ei fod yn bosib nad yw'r holl wybodaeth yn yr un lle.

Fel arfer, fodd bynnag, os ydych yn hunangyflogedig byddwch yn llenwi'ch Ffurflen Dreth bob blwyddyn er mwyn cyfrifo faint rydych wedi ennill a pha dreth sydd arnoch.

Felly, os ydych wedi gwneud hyn yn barod rydych wedi gwneud pethau'n haws i'ch hunan oherwydd gallwch ddod o hyd i'r holl ffigurau y byddwch eu hangen ar gyfer yr adran hon ar eich Ffurflen Dreth, a gallwch eu copïo.

Hyd yn oed os ydych wedi bod yn rhedeg mwy nag un busnes, efallai mewn partneriaeth â rhywun arall, dylech fedru gweithio allan yr atebion o'ch Ffurflen Dreth. I gyfrifo cyfanswm eich elw ar draws eich busnesau, adiwch yr elw wedi'i addasu o bob un o'ch tudalennau hunangyflogaeth A'CH cyfran chi o elw'r bartneriaeth wedi'i addasu  o bob un o'r tudalennau partneriaeth.

Gall busnesau ddod ag arian i mewn o bob man – efallai cewch elw ychwanegol o incwm rhentu er enghraifft.  Os yw hyn yn gymwys i'ch busnes, dylech fedru dod o hyd i'r symiau sydd eu hangen arnoch ar eich Ffurflen Dreth.

Os ydych yn ffermwr, garddwr marchnad, arlunydd neu'n ysgrifennwr, rydym yn sôn amdanoch yn arbennig yma, oherwydd os ydych fel arfer yn defnyddio cyfartalion wrth gyfrifo'ch elw, bydd angen i chi fod yn ofalus. Ni allwch ddefnyddio cyfartalion yn eich cais am gredydau treth. Mae angen y ffigurau cywir arnom. Mae'r nodiadau rydym wedi eu cynnwys yn eich pecyn adnewyddu'n dweud wrthych sut i gyfrifo'r rhain.

OND beth os nad ydych wedi llenwi'ch Ffurflen Dreth eto? Os felly mae'n debygol nad oes gennych yr holl wybodaeth sydd ei hangen wrth law. Ac os mai hynny yw'r achos, rhowch amcangyfrif i ni o beth fydd e drwy ddefnyddio'ch anfonebau a thalebion ar gyfer y flwyddyn - ond cofiwch geisio bod mor fanwl gywir â phosibl, a gadewch i ni wybod cyn gynted ag y bo'r ffigurau iawn gennych! Nes i ni eu cael, gallwn ond amcangyfrif faint o gredydau treth y dylem eich talu. Gallai hyn olygu eich bod heb gael eich talu digon, neu gallech fod wedi cael eich gordalu a bydd angen i chi dalu rhan o'r arian nôl.

Cofiwch dylai unrhyw arian a enillir tramor gael ei gynnwys mewn Punnoedd Prydeinig!

Ac os yw eich busnes wedi gwneud colled yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, dylech ddidynnu'r swm hwnnw o'ch incwm cyfan ar gyfer y flwyddyn honno (gan gynnwys incwm eich partner os ydych yn hawlio fel pâr).

Gall hyn i gyd fod yn ddryslyd felly os oes angen cymorth pellach arnoch ar unrhyw adeg wrth i chi gyfrifo, rhowch alwad i'r llinell gymorth ar 0845 302 1489. (neu ffôn testun ar 0845 300 3909 os ydych yn fyddar neu os oes nam ar eich lleferydd).
Unwaith rydych wedi gwirio eich bod wedi cynnwys eich holl incwm gwnewch nodyn o hyn gan y

byddwch ei angen mewn munud pan fyddwch yn dod i'ch cyfrifiad incwm terfynol.

**Fideo 16 – Incwm Arall**

Mae'r adran hon ar gyfer adio unrhyw arian sydd gennych yn dod o ffynonellau nad ydym wedi sôn amdanynt eto.

Ar wahân i enillion a budd-daliadau, mae'n bosibl y bydd gennych arian yn dod o bob math o leoedd.

Efallai eich bod, er enghraifft, wedi ennill ychydig o log ar gynilion, buddsoddiadau neu ddifidendau, neu efallai eich bod yn derbyn arian o bensiwn. Neu efallai eich bod wedi derbyn arian gan ymddiriedolaeth, cytundeb neu ystâd, neu eiddo rydych yn eu perchen.

Dylech hefyd ddweud wrthym yma am unrhyw incwm tramor nad oedd yn rhan o'ch tâl o gyflogaeth neu hunangyflogaeth. Gallai hyn fod yn bensiynau tramor, neu unrhyw fudd-daliadau nawdd cymdeithasol y gallech fod wedi eu derbyn.

Os credwch fod yr adran hon yn berthnasol i chi, nodwch y cyfanswm gros a gawsoch o'r ffynonellau eraill hyn ar eich taflen waith – mewn geiriau eraill, adiwch bopeth at ei gilydd gan ddefnyddio'r symiau y gwnaethoch eu derbyn cyn i'r dreth gael ei didynnu, nid ar ôl!

Cofiwch drosi unrhyw arian a gawsoch tramor mewn i Bunnoedd Prydeinig cyn i chi eu cynnwys yn eich symiau, neu fel arall gallai eich ateb fod yn anghywir iawn!

AC os yw eich cyfanswm terfynol yn llai na £300 mae hynny'n newyddion gwych - ni fydd rhaid i chi ei gynnwys! Dyw e ddim yn cyfrif, ac nid yw taliadau cynhaliaeth, benthyciadau myfyrwyr neu grantiau'n cyfrif ychwaith.

**Fideo 17 - Os ydych yn hunangyflogedig**

Mae'r adran hon ar gyfer y rheiny ohonoch sy'n hunangyflogedig i'ch helpu i gyfrifo eich elw ar gyfer y flwyddyn dreth (Ebrill 6 y llynedd i Ebrill 5 eleni).

Gall fod yn anodd i gyfrifo hyn gan ei fod yn bosib nad yw'r holl wybodaeth yn yr un lle.

Fel arfer, fodd bynnag, os ydych yn hunangyflogedig byddwch yn llenwi'ch Ffurflen Dreth bob blwyddyn er mwyn cyfrifo faint rydych wedi ennill a pha dreth sydd arnoch.

Felly, os ydych wedi gwneud hyn yn barod rydych wedi gwneud pethau'n haws i'ch hunan oherwydd gallwch ddod o hyd i'r holl ffigurau y byddwch eu hangen ar gyfer yr adran hon ar eich Ffurflen Dreth, a gallwch eu copïo.

Hyd yn oed os ydych wedi bod yn rhedeg mwy nag un busnes, efallai mewn partneriaeth â rhywun arall, dylech fedru gweithio allan yr atebion o'ch Ffurflen Dreth. I gyfrifo cyfanswm eich elw ar draws eich busnesau, adiwch yr elw wedi'i addasu o bob un o'ch tudalennau hunangyflogaeth A'CH cyfran o elw'r bartneriaeth wedi'i addasu o bob un o'r tudalennau partneriaeth.

Gall busnesau ddod ag arian i mewn o bob man – efallai cewch elw ychwanegol drwy osod eiddo ar rent, er enghraifft. Os yw hyn yn gymwys i'ch busnes, dylech fedru dod o hyd i'ch symiau sydd eu hangen arnoch ar eich Ffurflen Dreth.

Os ydych yn ffermwr, garddwr marchnad, arlunydd neu'n ysgrifennwr, rydym yn sôn amdanoch yn arbennig yma, oherwydd os ydych fel arfer yn defnyddio cyfartalion wrth gyfrifo'ch elw, bydd angen i chi fod yn ofalus. Ni allwch ddefnyddio cyfartalion yn eich cais am gredydau treth. Mae angen y ffigurau cywir arnom. Mae'r nodiadau rydym wedi eu cynnwys yn eich pecyn adnewyddu'n dweud wrthych sut i gyfrifo'r rhain.

OND beth os nad ydych wedi llenwi'ch Ffurflen Dreth eto? Os felly mae'n debygol nad oes gennych yr holl wybodaeth sydd ei hangen wrth law. Ac os mai hynny yw'r achos, rhowch amcangyfrif i ni o beth fydd e drwy ddefnyddio'ch anfonebau a thalebion ar gyfer y flwyddyn - ond cofiwch geisio bod mor fanwl gywir â phosibl, a gadewch i ni wybod cyn gynted ag y bo'r ffigurau iawn gennych! Nes i ni eu cael, gallwn ond amcangyfrif faint o gredydau treth y dylem eich talu. Gallai hyn olygu eich bod heb gael eich talu digon, neu gallech fod wedi cael eich gordalu a bydd angen i chi dalu rhan o'r arian nôl.

Cofiwch dylai unrhyw arian a enillir tramor gael ei gynnwys mewn Punnoedd Prydeinig!

Ac os yw eich busnes wedi gwneud colled yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, dylech ddidynnu'r swm hwnnw o'ch incwm cyfan ar gyfer y flwyddyn honno (gan gynnwys incwm eich partner os ydych yn hawlio fel pâr).

Gall hyn i gyd fod yn ddryslyd felly os oes angen cymorth bellach arnoch ar unrhyw adeg wrth i chi gyfrifo, rhowch alwad i'r llinell gymorth ar 0845 302 1489.(neu ffôn testun ar 0845 300 3909 os ydych yn fyddar neu os oes nam ar eich lleferydd).

Unwaith rydych wedi gwirio eich bod wedi cynnwys eich holl incwm gwnewch nodyn o hyn gan y byddwch ei angen mewn munud pan fyddwch yn dod i'ch cyfrifiad incwm terfynol.

**Fideo 18 - Beth i wneud nesaf**

Nawr eich bod wedi mynd trwy eich holl gyfrifiadau ac wedi cyfrifo faint o arian sy'n dod mewn, beth dybiwch chi y dylech wneud gyda'r holl ffigurau hyn? Wel mae angen i chi nawr ei hadio nhw i gyd gyda'i gilydd er mwyn cyfrifo'ch incwm cyfan. Peidiwch ag anghofio tynnu'r cyfraniadau pensiwn a'r rhodd cymorth.

Ydych chi wedi gwneud popeth? Gadewch i ni wirio:

1. A yw eich holl wybodaeth bersonol yng Ngham A yn gywir?

2. A ydych chi wedi dweud wrthym am yr holl newidiadau yn eich amgylchiadau yng Ngham B?

3. A ydych chi wedi cyfrifo eich incwm ar gyfer y flwyddyn o Ebrill 6 y llynedd i Ebrill 5 eleni?

Bydd ffurflen yr Adolygiad Blynyddol yn rhoi ystod o incwm i chi. Os yw eich incwm o fewn yr ystod a roddir does dim angen i chi roi galwad i ni. Os, fodd bynnag, ei fod yn uwch neu'n is, bydd angen i chi roi galwad cyflym i'r llinell gymorth ar 0845 302 1489 (neu ffôn testun ar 0845 300 3909 os ydych yn fyddar neu os oes nam ar eich lleferydd).

Os na, yna rydych wedi gorffen! Mae'n glir bod yr wybodaeth sydd gennym amdanoch yn gywir o hyd ac yn gyfoes, felly bydd eich cais yn cael ei adnewyddu'n awtomatig. Amser am baned i ddathlu!

**Fideo 19 – Cyflwyniad i'ch datganiad**

Rydych wedi clicio ar y llwybr hwn oherwydd bod gennych ffurflen Datganiad yn eich pecyn adnewyddu.

Felly'r unig beth sydd ar ôl i chi ei wneud nawr yw mynd trwy'r adrannau canlynol, cyfrifo'ch incwm ar gyfer y flwyddyn dreth ddiwethaf (sef Ebrill 6 y llynedd - Ebrill 5 eleni) ac yna nodi'ch ffigurau ar y ffurflen Datganiad. Yr unig beth sydd ar ôl i'w wneud wedyn yw ei phostio'n ôl atom.

Bydd y cam hwn yn eich arwain drwy'r ffurflen Datganiad. Bydd hefyd yn eich helpu i gyfrifo'ch incwm ar gyfer y flwyddyn dreth ddiwethaf. Dyma eich cyfle i ddiweddu'r wybodaeth sydd gennym ar eich cyfer ac i chi roi'r ffigurau cywir i ni. Ei bwrpas yw gadael i ni wybod faint o arian sydd gennych yn dod i mewn – o'r gwaith, budd-daliadau neu unrhyw le arall.

**Fideo 20 – Budd-daliadau penodol**

Mae Rhan 1 o'ch Datganiad Blynyddol yn ymwneud â'r budd-daliadau rydych yn eu derbyn.

Yr unig beth sydd angen i chi ei wneud yma yw rhoi 'X' nesaf at y budd-daliadau rydych wedi'u derbyn yn ystod y flwyddyn dreth gyfan hyd at Ebrill 5 eleni.

OND cofiwch beidio â rhoi 'X' nesaf at y rhain os ydych yn dal i aros i glywed os ydych yn gymwys ai peidio, neu os ydych yn derbyn taliad ar gyfer un o'r rhain oherwydd rydych wedi dechrau gwaith naill ai yn y 2 wythnos ddiwethaf neu y byddwch yn dechrau o fewn y 7 diwrnod nesaf neu os na wnaethoch dderbyn un o'r budd-daliadau hyn am y flwyddyn dreth gyfan.

**Fideo 21 - Budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy a dderbyniwyd**

Nawr mae'n amser i gyfrifo faint o arian y gallech fod wedi ei dderbyn drwy fudd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy.

Yn gyntaf, mae'n bosibl eich bod yn meddwl beth yw 'budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy?'

Wel mae nifer o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol ar gael i bobl gan y Llywodraeth - taliadau rheolaidd yw'r rhain sydd wedi'u cynllunio i helpu pobl gyda phob math o anghenion - pobl sy'n ddi-waith, sâl, wedi ymddeol neu sy'n darpar rieni er enghraifft.

A daw'r budd-daliadau hyn o dan ddau gategori. Mae rhai ohonynt yn rhydd o dreth. Mae eraill wedi eu trethu. Y budd-daliadau sydd wedi eu trethu yw:

- Lwfans Profedigaeth,
- Lwfans Gofalwr
- Lwfans Ceisio Gwaith **yn seiliedig ar gyfraniadau**
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth **yn seiliedig ar gyfraniadau**
- **Budd-dal anallu ogrwydd -** ond peidiwch â'i gynnwys os ydych wedi bod yn ei dderbyn ers cyn 13 Ebrill 1995 ac wedi bod yn ei dderbyn ers hynny.

Felly, os talwyd unrhyw un o'r rhain i chi yn ystod y flwyddyn dreth ddiwethaf, cyfrifwch faint rydych wedi derbyn oddi wrthynt a nodwch y cyfanswm ym mlwch [2.1]

Os ydych yn dal yn teimlo ar goll ac nid ydych yn siŵr pa fudd-daliadau a gawsoch neu faint o arian a gawsoch oddi wrthynt, rhowch alwad i'ch swyddfa Nawdd Cymdeithasol neu'r Ganolfan Byd Gwaith.

**Fideo 22a – Manylion incwm – rhan 1**

Os ydych yn cael eich cyflogi gan gwmni, rydym angen gwybod faint y gwnaethant eich talu yn y flwyddyn hyd at Ebrill 5 eleni. Os ydych yn gwbl hunangyflogedig, gallwch neidio dros yr adran hon a mynd yn syth ymlaen i [ANIMATION 24]. Os ydych yn rhannol hunangyflogedig ond hefyd yn gweithio i gyflogwr, bydd angen i chi ddilyn y ddwy adran.

**Fideo 22b – Manylion incwm – rhan 2**

Felly, i wirio faint yw cyfanswm eich incwm, bydd angen i chi edrych ar adran 'Total Pay to Date' eich P45, neu adran 'Total for the year' eich P60 neu eich slip cyflog diwethaf **y gwnaethoch ei dderbyn ddiwedd mis Mawrth** (dywedon ni y bydden nhw'n ddefnyddiol!) Cewch yr holl ffurflenni hyn o'r gwaith felly os nad ydynt gennych, gofynnwch i'ch cyflogwr amdanynt.

Cofiwch gynnwys unrhyw beth y gwnaethoch ei ennill dramor yn y ffigur hwn - ond mewn Punnoedd Prydeinig os gwelwch yn dda! - ac unrhyw gildyrnau, tâl streicio o'ch undeb llafur neu arian rydych efallai wedi ei ennill yn y carchar neu ar remand rhwng Ebrill 6 y llynedd ac Ebrill 5 eleni.

Cofiwch hefyd i ddidynnu unrhyw dreuliau gwaith **a ganiateir yn erbyn eich treth** nad ydych eto wedi cael eich talu, yn ogystal ag unrhyw arian rydych wedi ei dalu mewn i gynllun pensiwn personol. Mae angen i chi hefyd ddidynnu unrhyw daliadau Mamolaeth, Tadolaeth neu Fabwysiadu statudol efallai eich bod wedi eu derbyn – ond dim ond at uchafswm o £100 yr wythnos.

Mae'r nodiadau cymorth sydd yn eich pecyn adnewyddu o'r enw 'Adnewyddu eich credydau treth: Ei gael yn iawn' yn cynnwys taflen waith a fydd yn dweud wrthych beth ddylech ei gynnwys fel eich incwm fel cyflogai a pha ddidyniadau gellid eu gwneud.

Pan fydd gennych ffigur, nodwch ef ym mlwch [2.2]

Os, am ba bynnag reswm, na allwch ddod o hyd i'r ffigwr cywir nawr, gallwch roi amcangyfrif i ni. Ond mae'n hanfodol eich bod yn dweud wrthym cyn gynted ag rydych yn gwybod y ffigur ac nid yn hwyrach na 31 Ionawr y flwyddyn nesaf. Nes ei fod gennym, ni allwn fod yn sicr eich bod yn derbyn y swm cywir o gredydau treth. Efallai bod mwy o arian yn ddyledus i chi, neu efallai eich bod wedi cael eich gordalu, sy'n golygu bydd rhaid i chi ei dalu'n ôl.

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar unrhyw adeg wrth i chi gyfrifo'ch incwm, rhowch alwad i'r llinell gymorth ar 0845 302 1489 (neu ffôn testun ar 0845 300 3909 os ydych yn fyddar neu os oes nam ar eich lleferydd).

**Fideo 23 - Budd-daliadau oddi wrth eich cyflogwr**

Mae'r adran hon yn eich helpu i gyfrifo beth yw gwerth eich buddiannau gwaith.

Os ydych yn lwcus, efallai cewch lawer o fân fanteision sy'n dod gyda'r swydd – pethau fel yswiriant meddygol neu gar cwmni.

Mae angen i ni wybod beth yw gwerth y rhain i gyd, felly'r ffigur ddylai fod yma yw cyfwerth mewn arian yr holl fuddiannau y cawsoch oddi wrth eich cyflogwr ar gyfer y flwyddyn dreth hyd at 5 Ebrill eleni.

Unwaith eto, bydd eich cyflogwr fel arfer yn gwneud y gwaith ar eich cyfer trwy anfon ffurflen P11D neu P9D atoch. Ond os nad oes gennych y ffurflenni hyn, gofynnwch i'ch cyflogwr i ddweud wrthoch chi beth yw gwerth y buddiannau mewn nwyddau y dylech eu cynnwys fel incwm.

I wneud pethau ychydig yn haws, mae'r nodiadau cymorth sydd wedi'u cynnwys yn eich pecyn adnewyddu'n cynnwys taflen waith a fydd yn dweud wrthych chi pa fuddiannau gwaith y dylech eu cynnwys fel incwm.

Ac os ydych wedi cael mwy nag un swydd dros y flwyddyn dreth ddiwethaf, adiwch y ffigurau at ei gilydd.

Pan fydd gennych ffigur, nodwch ef ym mlwch [2.3]

**Fideo 24 - Incwm o hunangyflogaeth**

Mae'r adran hon ar gyfer y rheiny sy'n hunangyflogedig i'w helpu i gyfrifo'u hincwm ar gyfer y flwyddyn dreth ddiwethaf.

Yn lle gweithio fel cyflogai i rywun arall, mae'n ddigon posibl eich bod yn hunangyflogedig ar sail amser llawn. Os yw hyn yn gymwys i chi, yna mae'n rhaid i chi gyfrifo beth yw eich elw trethadwy ar gyfer y flwyddyn dreth Ebrill 6 y llynedd i Ebrill 5 eleni.

Gall fod yn anodd cyfrifo hyn gan ei fod yn bosib nad yw'r holl wybodaeth yn yr un lle.

Fel arfer, fodd bynnag, os ydych yn hunangyflogedig byddwch yn llenwi'ch Ffurflen Dreth bob blwyddyn er mwyn cyfrifo faint rydych wedi ennill a pha dreth sydd arnoch.

Felly, os ydych wedi gwneud hyn yn barod rydych wedi gwneud pethau'n haws i'ch hunan oherwydd gallwch ddod o hyd i'r holl ffigurau y byddwch eu hangen ar gyfer yr adran hon ar eich Ffurflen Dreth, a gallwch eu copïo.

Hyd yn oed os ydych wedi bod yn rhedeg mwy nag un busnes, efallai mewn partneriaeth â rhywun arall, dylech fedru gweithio allan yr atebion o'ch Ffurflen Dreth. I gyfrifo cyfanswm eich elw ar draws eich busnesau, adiwch at ei gilydd yr elw wedi'i addasu o bob un o'ch tudalennau hunangyflogaeth A'CH cyfran chi o elw'r bartneriaeth wedi'i addasu'r o bob un o'r tudalennau partneriaeth.

Gall busnesau ddod ag arian i mewn o bob man – efallai y cewch elw ychwanegol drwy osod eiddio ar rent, er enghraifft. Os yw hyn yn gymwys i'ch busnes, dylech fedru dod o hyd i'r symiau sydd eu hangen arnoch ar eich Ffurflen Dreth.

Os ydych yn ffermwr, garddwr marchnad, arlunydd neu'n ysgrifennwr, rydym yn sôn amdanoch yn arbennig yma, oherwydd os ydych fel arfer yn defnyddio cyfartalion wrth gyfrifo'ch elw, bydd angen i chi fod yn ofalus. Ni allwch ddefnyddio cyfartalion yn eich cais am gredydau treth. Mae angen ffigurau cywir arnom. Mae'r nodiadau rydym wedi eu hanfon gyda'ch pecyn adnewyddu'n dweud wrthych sut i gyfrifo'r rhain.

OND beth os nad ydych wedi llenwi'ch Ffurflen Dreth eto? Os felly mae'n debygol nad oes gennych yr holl wybodaeth sydd ei hangen wrth law. Ac os mai hynny yw'r achos, rhowch amcangyfrif i ni o beth fydd e drwy ddefnyddio'ch anfonebau a thalebion ar gyfer y flwyddyn - ond cofiwch geisio bod mor fanwl gywir â phosibl, a gadewch i ni wybod cyn gynted ag y bo'r ffigurau iawn gennych ac nid yn hwyrach na 31 Ionawr blwyddyn nesaf. Nes i ni eu cael, gallwn ond amcangyfrif faint dylem eich talu. Gallai hyn olygu eich bod heb gael eich talu digon, neu gallech fod wedi cael eich gordalu ac efallai bydd angen i chi ei dalu'n ôl.

Cofiwch dylai unrhyw arian a enillir tramor gael ei gynnwys mewn Punnoedd Prydeinig!

Ac os yw eich busnes wedi gwneud colled yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, dylech ddidynnu'r swm hwnnw o'ch incwm cyfan ar gyfer y flwyddyn honno (gan gynnwys incwm eich partner os ydych yn hawlio fel pâr).

Gall hyn i gyd fod yn ddryslyd felly os oes angen cymorth pellach arnoch ar unrhyw adeg wrth i chi gyfrifo, rhowch alwad i'r llinell gymorth ar 0845 302 1489 (neu ffôn testun ar 0845 300 3909 os ydych yn fyddar neu os oes nam ar eich lleferydd).

Pan fydd gennych eich ffigur terfynol, nodwch ef ym mlwch [2.4]

**Fideo 25 – Incwm arall**

Mae'r adran hon ar gyfer adio at ei gilydd unrhyw arian sydd gennych yn dod i mewn o ffynonellau nad ydym wedi sôn amdanynt eto.

Ar wahân i enillion a budd-daliadau, mae'n bosibl y bydd gennych arian yn dod i mewn o bob math o leoedd.

Efallai eich bod, er enghraifft, wedi ennill ychydig o log ar gynilion, buddsoddiadau neu ddifidendau, neu efallai eich bod yn derbyn arian o bensiwn. Neu efallai eich bod wedi derbyn arian gan ymddiriedolaeth, cytundeb neu ystâd, neu eiddo rydych yn eu perchen.

Dylech hefyd ddweud wrthym am unrhyw incwm tramor nad oedd yn rhan o'ch tâl o gyflogaeth neu hunangyflogaeth. Gallai fod yn bensiynau tramor, neu unrhyw fudd-daliadau nawdd cymdeithasol tramor rydych efallai wedi eu derbyn.

Os ydych chi'n meddwl bod yr adran hon yn berthnasol i chi, nodwch y cyfanswm gros y gwnaethoch ei dderbyn o'r ffynonellau eraill hyn ym mlwch 2.5 - adiwch bopeth felly at ei gilydd gan ddefnyddio'r symiau y gwnaethoch eu derbyn cyn i dreth gael ei didynnu, nid ar ôl!

Cofiwch drosi unrhyw arian a gawsoch dramor i mewn i Bunnoedd Prydeinig cyn i chi eu cynnwys yn eich symiau, neu fel arall gallai eich ateb fod yn anghywir iawn!

AC os yw eich cyfanswm terfynol yn llai na £300 mae hynny'n newyddion gwych - ni fydd yn rhaid i chi ei gynnwys! Dyw e ddim yn cyfrif, ac nid yw taliadau cynhaliaeth, benthyciadau myfyrwyr neu grantiau'n cyfrif ychwaith.

**Fideo 26 – Amgylchiadau personol (Rhan 3 y ffurflen)**

Mae rhan 3 eich ffurflen Datganiad yn bwysig iawn. Dyma lle'r ydych yn dweud wrthym os yw popeth yn eich Adolygiad Blynyddol yn gywir ai peidio. Heb yr wybodaeth hon, ni allwn adnewyddu eich cais am gredydau treth!

Yng Ngham A ar ddechrau'r arweiniad aethom drwy eich Adolygiad Blynyddol yn ofalus gyda chi er mwyn sicrhau bod popeth roeddech wedi dweud wrthym pan hawlioch gyntaf yn gywir. Ac yng Ngham B aethom drwy eich holl amgylchiadau personol i wirio fod unrhyw newidiadau ers hynny hefyd wedi cael eu cynnwys yn gywir yn eich adolygiad.

Nawr felly yw'ch cyfle i i ddweud wrthym os ydych wedi sylwi ar unrhyw gamgymeriadau neu os oes yna unrhyw newidiadau y mae angen i ni wybod amdanynt. Does dim angen i chi fynd mewn i fanylder yma, nodwch un o'r ddau flwch hyn:

Os yw popeth yn yr Adolygiad Blynyddol yn bendant yn gywir a does dim newidiadau gennych i'w nodi ar gyfer y cyfnod Ebrill 6 y llynedd i Ebrill 5 eleni, rhowch 'X' ym mlwch 3.1.

NEU

Os oes darnau o'r wybodaeth yn eich Adolygiad Blynyddol ar goll neu'n anghywir, neu os oes gennych ychydig o newidiadau i'w nodi, rhowch 'X' ym mlwch 3.2.

Os ydych wedi marcio blwch 3.2 oherwydd bod rhywbeth yn anghywir, gallwch ddweud wrthym beth yw'r rhywbeth yna drwy naill ai ffonio'r llinell gymorth ar 0845 302 1489 (neu ffôn testun ar 0845 300 3909 os ydych yn fyddar neu os oes nam ar eich lleferydd) , neu ysgrifennu atom - p'un bynnag sy'n well gennych.

Petai'n well gennych ysgrifennu, rhowch 'Newid mewn amgylchiadau' ar eich llythyr ac wedyn manylion y newid, a'i anfon i:

Cyllid a Thollau EM – Credydau Treth

Canolfan Gyswllt Cymraeg

Tŷ Moelwyn

Tros y Bont

Porthmadog

Gwynedd

LL49 9AB

Nawr rydych yn barod i symud ymlaen i ran olaf eich ffurflen adnewyddu!!

**Fideo 27 – Datganiad (Rhan 4 y ffurflen)**

Rydych bron yna! Gwiriwch am y tro olaf fod popeth rydych wedi'i nodi ar eich Adolygiad Blynyddol yn gywir cyn i chi frysio i'r rhan ar gyfer llofnodi.

Rydym yn pwysleisio hyn oherwydd mae'n bwysig ei gael yn gywir. Byddwn yn cyfrifo faint i'ch talu chi yn seiliedig ar yr holl wybodaeth hon, felly os yw'n anghywir, efallai byddwch yn derbyn gormod o arian - y bydd yn rhaid i chi ei dalu'n ôl - neu dim digon, a ni fydd hynny'n llawer o gymorth!

Mae'n bwysig cofio hefyd os ydych yn rhoi gwybodaeth anwir ar y ffurflen hon, mae'n debygol na fyddwch yn gallu ei newid yn hwyrach, ac efallai bydd angen i chi dalu cosb neu efallai cewch hyd yn oed eich erlid, a does neb eisiau hynny.

Cofiwch os ydych yn hawlio fel rhan o bâr, mae'r ddau ohonoch yr un mor gyfrifol am gael yr wybodaeth yn gywir ac am dalu unrhyw ordaliadau'n ôl neu gosbau, felly helpwch eich gilydd!

Ond os ydych yn bendant fod popeth yn gywir, yn 100 y cant yn hollol siŵr, yna llofnodwch a rhowch y dyddiad ar eich Datganiad.

Os ydych yn hawlio fel pâr, dylai'r ddau ohonoch lofnodi a rhoi'r dyddiad ar eich Datganiad.

Dim ond un peth arall sydd ar ôl i'w wneud - ei anfon drwy'r post atom.

Gallwch ymlacio nawr, rydych wedi ei wneud! Doedd hynna ddim mor wael oedd e?

*NEGES FFEILIO A CHADW'N OFALUS – Cofiwch  gadw dogfennau fel eich p60 a'r derbynebau gofal plant. Sicrhewch eich bod yn eu cadw mewn man diogel oherwydd gallai bod eu hangen eto trwy gydol y flwyddyn os yw eich amgylchiadau'n newid neu os ydym yn cysylltu â chi i wneud gwiriadau ar hap.]*